# Cyfarfod Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Cefnogi Pobl Gwent (Chwarterol)

1:15 pm – 16.15 pm, Dydd Iau 14 Gorffennaf 2016

Ystafell Gyfarfod y Felin, Tŷ'r Efail, Lower Mill Field, Pont-y-pŵl, NP4 0XJ

**Yn bresennol (aelodau'r PCRh):**

Alyson Hoskins, CBS Blaenau Gwent, Rheolwr Gwasanaeth
Darren Daniel, Ymddiriedolaeth Brawf Cymru, Rheolwr Tîm
Dave Congreve, Trechu Tlodi, Prif Weithredwr Cynorthwyol, Cyngor Torfaen
Elke Winton, CBS Torfaen, Rheolwr Grŵp Tai (Cadeirydd)
Julia Osmond, Iechyd Cyhoeddus, Prif Ymarferwr Iechyd y Cyhoedd
Hugh Irwin, United Welsh, Cynrychiolydd CIC
Nigel Stannard, CS Casnewydd, Rheolwr Cefnogi Pobl
Rhian Stone, Solas, Cyfarwyddwr Corfforaethol, Cynrychiolydd Darparwr (Dirprwy Gadeirydd)
Richard Sheahan, Linc Cymru, Cynrychiolydd CIC

Arsylwyr**:**

Alicja Zalesinska, Tai Pawb, Cyfarwyddwr
Rachael Lewis, Rheolwr Cefnogi Pobl, Torfaen

**Swyddogion Cymorth yn Bresennol:**

Angela Lee, Cydlynydd Datblygiad Rhanbarthol CP Gwent (Cofnodion)
Beth Covill, CP Torfaen, Rheolwr Dros Dro Cefnogi Pobl
Malcolm Topping, CP Caerffili, Rheolwr Cefnogi Pobl
Michelle Church, CP Blaenau Gwent, Rheolwr Cefnogi Pobl

**Cyflwyniad:**

Rebecca Preston, Gwasanaeth Cefnogi Sipsiwn a Theithwyr, Gwalia

**Ymddiheuriadau:**

Chris Edmunds, BIPAB, Cydlynydd y Rhaglen Mewn Un Lle
Colin Jones, Reach, Rheolwr Tîm, Cynrychiolydd Darparwr Cymorth
Sam Lewis, Llamau, Pennaeth Gwasanaethau Cymorth y Dwyrain, Cynrychiolydd Darparwr
Simon Rose, Casnewydd, Rheolwr Anghenion Tai
Viv Daye, CBS Caerffili, Rheolwr Gwasanaeth

| | Eitem/Trafodaeth | I'w weithredu gan |
|---|---|---|
| **1.** | **Croeso a chyflwyniadau**<br>Croesawodd EW bawb i gyfarfod Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol Gwent, a gwnaed y cyflwyniadau.<br><br>**Ymddiheuriadau**<br>Derbyniwyd yr ymddiheuriadau fel y'u nodwyd uchod | |
| **2.** | **Swydd Cefnogi Pobl Gweithiwr Cefnogi Rhanbarthol** Sipsiwn a Theithwyr**:** ***Rebecca Preston, Gwalia***<br><br>**Cymorth Cysylltiedig â Thai i Sipsiwn a Theithwyr yng Ngwent**<br><br>Rhoddodd RP drosolwg o'r astudiaeth gwmpasu Sipsiwn a Theithwyr a gynhaliwyd y llynedd. Cysylltodd RP yn agos â'r Asesiadau Llety Sipsiwn a Theithwyr i sicrhau mai dim ond un set o gwestiynau yn cwmpasu'r asesiadau llety a'r astudiaeth gwmpasu CP oedd angen eu gofyn bob tro. Yn y cyflwyniad darparwyd trosolwg i'r pwyllgor o rai o'r anghenion cymorth sy'n gysylltiedig â thai oedd wedi cael eu canfod drwy'r astudiaeth gwmpasu.<br><br>Cytunodd timau CP ALl Blaenau Gwent, Casnewydd a Thorfaen i ariannu prosiect peilot is-ranbarthol i fwrw ymlaen â'r argymhellion o'r astudiaeth gwmpasu. Rhoddodd Rebecca drosolwg o'r prosiect hyd yma a'r llwyddiant a gafodd wrth ymgysylltu â'r gymuned hon. Cafodd y gymuned Sipsiwn a Theithwyr syndod ond roedd yn croesawu ac yn gwerthfawrogi'r asesiad llety a'r cwestiynau HRS. Roedd yr astudiaeth wedi arwain at ddatblygiad y gwasanaeth cymorth arbenigol ac mae hyn wedi helpu i feithrin ymddiriedaeth a datblygu cysylltiadau gyda'r gymuned<br><br>Mae rhai grwpiau cymorth / grwpiau cyfoedion wedi cael eu sefydlu:<br><br>• Dywedodd JO y byddai'n hapus i helpu RP i gefnogi datblygiad y grŵp iechyd<br>• Dywedodd AZ y gallai Tai Pawb roi cyflwyniad am hawliau anabledd i'r grwpiau priodol.<br>• Gellir dysgu gwersi o gymunedau Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig o ran helpu eu hunain ynghylch materion fel Trais ar Sail Anrhydedd<br><br>**Camau Gweithredu:**<br>• **Dosbarthu'r cyflwyniad Sipsiwn a Theithwyr gyda'r cofnodion**<br>• **Dosbarthu manylion cyswllt Rebecca Preston ar gyfer y Gwasanaeth Cefnogi Sipsiwn a Theithwyr gyda'r cofnodion**<br><br>Diolchodd EW i RP am y cyflwyniad a'i chymorth gyda'r Asesiadau Llety. Gadawodd RP y cyfarfod. | A<br>B |
| **3.** | **Cynnal a Chadw**<br><br>**Cofnodion / Camau gweithredu sy'n deillio o'r cyfarfod blaenorol (14/04/2016)**<br>Cymeradwywyd cofnodion y cyfarfod blaenorol. Mae'r camau gweithredu i'w | |

cwblhau o’r cofnodion blaenorol naill ai wedi eu cwblhau, ar yr agenda neu’n aros i’w datblygu ymhellach.

**Camau Gweithredu i’w cwblhau:**

C

**Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r PCRh ar ôl cyfarfod Cadeirydd ac Is-gadeirydd PCRh gyda’r Ymgynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin yn y Cartref a Thrais Rywiol. Cyfarfod EW/RS/RBD wedi ei drefnu.** CH

**Dosbarthu gwybodaeth am gynllun Llwybrau Gwent i droseddwyr unwaith y bydd ar gael**

**Datganiad o unrhyw wrthdaro buddiannau**
Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o wrthdaro buddiannau.

**Aelodaeth**

**Tai Pawb:** Croesawyd AZ i'r cyfarfod gan EW; oedd yn bresennol i arsylwi ar y cyfarfod PCRh i ystyried cyfethol Tai Pawb fel yr awgrymwyd yn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth.

**Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol:** Dywedodd EW wrth y pwyllgor bod cais wedi dod i law oddi wrth y Bwrdd Partneriaeth Gofal Cymdeithasol a Lles Gwent Fwyaf i gyfethol aelod o Gabinet ALl Gwent i gynrychioli'r Bwrdd Partneriaeth yn y PCRh. Cytunodd yr Aelodau y byddai hyn yn helpu i gryfhau'r cysylltiadau rhwng y Rhaglen Cefnogi Pobl a sectorau Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Lles. EW i ymateb

**Bwrdd Partneriaeth Ardal Camddefnyddio Sylweddau**: Trafodwyd cryfhau cysylltiadau â'r BPA Camddefnyddio Sylweddau gan y pwyllgor. Un o’r camau allweddol o'r cynllun cyflenwi camddefnyddio sylweddau yw i’r Byrddau Partneriaeth Ardal a’r PCRhau ddatblygu a chynnal cysylltiadau cryf; Dywedodd JO nad yw hi bellach yn mynychu'r BPA; trafodwyd ffurfioli gyda chynrychiolydd CP penodedig; dywedodd DD y gallai barhau i gynnal y cysylltiadau yn y cyfamser: dywedodd AH y bydd hi o bosib yn mynychu'r BPA yn y dyfodol ac os cytunir gallai darparu'r cysylltiad ffurfiol rhwng y BPA a'r PCRh wrth symud ymlaen.

**Iechyd**: Trafodwyd datblygu cysylltiadau â NCNau hefyd er mwyn cryfhau cysylltiadau gyda iechyd ymhellach. AH i ddilyn hyn gyda chydweithwyr iechyd.

**Trechu Tlodi**: Cadarnhaodd DC y byddai Will McClain yn dirprwyo yn y cyfarfod yn ei absenoldeb.

**Timau Troseddau Ieuenctid**: Cytunwyd y byddai cyfethol cynrychiolydd TTI o fudd i waith y PCRh. RSto / AH i ddilyn hyn. D

DD

**Camau gweithredu:**

E

**Hysbysu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol bod cyfethol cynrychiolydd wedi ei gytuno.** F

| | | |
|---|---|---|
| | **Cadarnhau os gall ddod yn gynrychiolydd y PCRh /PBLl >**<br><br>**Anfon Cylch Gorchwyl PCRh ymlaen i gydweithwyr NCN.**<br><br>**Cadarnhau safle dirprwy gyda WM**<br><br>**Cysylltu â chydweithwyr TTI i drafod aelodaeth cyfetholedig i'r PCRh.**<br><br>**Etholiadau Darparwr**<br><br>Cadarnhaodd RS fod y rhain i fod i ddigwydd ym mis Medi/Hydref eleni; gyda rhagor o wybodaeth yn debygol o gael ei ddosbarthu gan Gymorth Cymru cyn bo hir.<br><br>**Adolygiad Blynyddol**<br><br>Cyflwynwyd i Lywodraeth Cymru erbyn y dyddiad gofynnol; ar hyn o bryd yn cael ei ystyried gan y Grŵp Llywodraethu; gyda disgwyl adborth i PCRhau yn yr hydref. | FF |
| **4.** | **Y Sefyllfa Ariannol yn erbyn y gyllideb**<br><br>➢ Canlyniadau pedwerydd chwarter Ionawr 2016 – Mawrth 2016: cytunwyd a'u llofnodi gan yr aelodau yn y cyfarfod. Nid oedd y cyfarfod yn gworwm.<br><br>**Camau gweithredu: Cysylltu ag aelodau PCRh i gadarnhau llofnodi alldro terfynol chwarter pedwar ar gyfer craffu, cymeradwyo a llofnodi.** | G |
| **5.** | **Diweddariad Llywodraeth Cymru**<br><br>Diweddariad Llywodraeth Cymru 01 Gorffennaf 2016: nodi'r papur yn y cofnodion<br><br>Roedd pwyntiau trafod yn cynnwys y canlynol:<br><br>Bod yn ymwybodol o brosiectau sy'n cael eu hariannu ar y cyd gydag Arian Grant Cenedlaethol Llywodraeth Cymru (yn gysylltiedig â chynnydd mewn cyfrifoldebau ALl o ganlyniad i Ddeddf Tai (Cymru) 2104), a rhoi ystyriaeth yn lleol ynghylch a fydd y prosiectau hyn yn parhau a sut y byddant yn cael eu hariannu.<br><br>Sicrhau nad yw cysylltiadau i droseddwyr yn cael eu colli.<br><br>Yr ymdrech barhaus i CP ariannu gwasanaethau a phrosiectau atal digartrefedd.<br><br>Mae aliniad Trechu Tlodi yn parhau i fod yn flaenoriaeth, ynghyd â Trechu Tlodi a chydweithwyr tai yn gweithio yn agosach gyda'i gilydd. | |

| | | |
|---|---|---|
| **6.** | **Diweddariadau'r ALI**<br><br>Cafodd adroddiadau chwarterol yr awdurdod lleol gan Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd a Thorfaen eu dosbarthu i'r aelodau gyda'r agenda.<br><br>Nid oedd diweddariad ar gael gan Gyngor Sir Fynwy.<br><br>***Rhoi Cyngor ar Ddyledion***<br><br>Dywedodd AL wrth y Pwyllgor fod gwaith ymchwil yn cael ei wneud gyda Swyddogion Cefnogi Pobl i ddeall a oedd y newidiadau diweddar i'r rheoliadau Awdurdod Ymddygiad Ariannol bellach yn golygu y byddai rhai tasgau a wneir gan weithwyr cymorth yn awr yn cael eu hystyried fel "rhoi cyngor ar ddyledion", a fyddai'n gofyn am gael eu rheoleiddio. Mae'r tasgau canlynol o'**r *Llawlyfr Canllawiau Perimedr yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol, PERG 17.7***<br>*(14) Ymgynghorydd: "Yr wyf yn argymell eich bod yn blaenoriaethu ad-dalu eich bil trydan dros yr holl ddyledion eraill" Mae hyn yn debygol o fod yn gyfystyr â rhoi cyngor ar ddyledion os, ar ôl ystyried holl ddyledion y dyledwr, yw ymgynghorydd yn cynghori'r dyledwr i flaenoriaethu ad-dalu bil cyfleustodau (e.e.bil trydan) dros ei ddyledion eraill (gan gynnwys dyledion sy'n codi o dan gytundebau credyd neu gytundebau llogi defnyddiwr). Mae hyn yn gyfystyr â rhoi cyngor ar ddiddymu dyledion sy'n ddyledus, oherwydd bod argymhelliad ymhlyg y dylai'r dyledwr ohirio ad-dalu ei ddyledion cysylltiedig â chredyd defnyddwyr hyd nes ei fod wedi ad-dalu dyled neu ddyledion arall.*<br><br>*(16) Ymgynghorydd yn rhoi cyngor cyllidebu. Mae hyn yn gyfystyr â rhoi cyngor ar ddyledion os bydd yr ymgynghorydd yn mynd y tu hwnt i'r gwasanaethau yn enghraifft (15) ac yn cynghori'r dyledwr ar sut i gyfateb incwm a dyledion. Er enghraifft, efallai y bydd yr ymgynghorydd yn cynghori'r dyledwr i leihau gwariant disgresiynol i swm penodol bob mis i'w alluogi i dalu swm penodol yn ôl o fil cerdyn credyd mawr bob mis. Nid oes gwahaniaeth os mai canlyniad y cyngor yw y dylai'r dyledwr dalu ei ddyledion yn llawn, yn hytrach na mewn rhandaliadau dros gyfnod o amser, neu drwy ymuno â rhyw fath o gynllun ad-dalu, gan nad yw rhoi cyngor ar ddyledion wedi ei gyfyngu i roi cyngor ynghylch cael ei ryddhau rhag talu'r ddyled yn llawn neu ad-drefnu'r ddyled.*<br><br>Gwnaed ymholiadau gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol a chafwyd trafodaeth am dasgau gweithiwr cymorth gyda'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol, gyda'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol yn ymateb trwy ddweud y dylai sefydliadau wirio a oes angen iddynt gael eu rheoleiddio a'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn dweud y gallai rhai o'r tasgau hyn fod yn gyfystyr â rhoi cyngor ar ddyledion. Codwyd hyn gyda Llywodraeth Cymru, a gwnaed cais iddo gael ei drafod gyda chydweithwyr Cynhwysiant Ariannol.<br><br>**Cam Gweithredu:**<br><br>**Unrhyw ddatblygiadau ynghylch "rhoi cyngor ar ddyledion" i gael eu darparu i'r PCRh.** | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>NG |

| | | |
|---|---|---|
| **7.** | **Diweddariad Darparwyr**<br><br>Rhoddodd SL y diweddariad canlynol drwy e-bost cyn y cyfarfod:<br><br>Trafodwyd y canlynol yn y Fforwm Darparwyr Rhanbarthol ym mis Ebrill:<br><br>Newidiadau o fewn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth:<br>• *PCRh yn profi beth yw ansawdd gwasanaethau, gan ddefnyddio deilliannau i wneud hynny:* roedd y grŵp yn teimlo bod timau CP yn gwneud archwiliad o wasanaethau yn lleol, comisiynwyr yn gwneud y prawf a *PCRh* yn gwrando ar yr hanesion - ***cytunwyd y gallai edrych ar achosion lle nad oedd cefnogaeth wedi gweithio, neu lle roedd rhai wedi gadael heb i hynny gael ei gynllunio, dynnu sylw at fylchau mewn gwasanaethau a'r mannau lle'r oedd tagfeydd yn y drefn - byddai angen gwneud hyn yn ofalus gan fod llawer o ofn methu yn y sector hwn ar yr adeg honno. Roedd mater yn codi ar yr adeg honno o gyfeirio achosion yn amhriodol a chael gwared ag achosion trwy eu gadael gyda darparwyr. Cytunwyd hefyd y gallai fod yn ddefnyddiol i'r PCRh wneud profion i ganfod beth oedd profiadau defnyddwyr, a gweld pa ymyriadau oedd wedi digwydd.***<br>• *PCRh yn cynghori ar Gomisiynu a Chaffael:* cytunwyd bod y mater hwn yn fwy o fater cenedlaethol ynghylch cysondeb a hyblygrwydd a bod angen llai o ymagweddau lleol ar draws holl ALlau Cymru.<br>• *PCRh yn adrodd ynghylch a yw ALlau wedi bodloni telerau ac amodau'r grant*: cytunwyd bod gan ALlau eu prosesau archwilio mewnol eu hunain ochr yn ochr ag adolygiadau Llywodraeth Cymru/Swyddfa Archwilio Cymru yn eu lle a ddylai gadarnhau eu bod yn bodloni telerau ac amodau'r grant mewn perthynas â gwariant CP<br>• *Cysylltu â PCRhau eraill, darpariaeth traws rhanbarthol a chenedlaethol:* Cysylltiadau yn cael eu gwneud â PCRhau eraill gan y rhwydwaith Cydlynydd Datblygu Rhanbarthol a'r fforwm Gwasanaethau Tai â Chymorth, cytunwyd bod datblygu gwasanaethau traws ranbarthol yn rhywbeth ar gyfer y dyfodol<br><br>Canlyniadau:<br>• Siaradwyd am y newidiadau i'r dyddiadau casglu, y canlyniadau Digartrefedd newydd a'r angen i ddarparwyr yng Ngwent gynyddu nifer y canlyniadau WTE (isel o'u cymharu â gweddill Cymru).<br>Llythyrau oddi wrth y Gweinidogion:<br>• Pobl Ifanc - siaradwyd am yr heriau gyda golwg ar y newidiadau Diwygio Lles a'r angen am fwy o gydweithio rhwng Gwasanaethau Cymdeithasol, Gwasanaethau Ieuenctid, Digartref a CP i ddiwallu yr HOLL anghenion ac o bosibl comisiynu cynlluniau anghenion cymhleth ar y cyd.<br>• Pobl Ifanc - hefyd angen monitro mynediad i gynlluniau ar gyfer Pobl Ifanc a'r rhai sy'n Gadael Gofal yn well.<br>• Ardal dan Anfantais - cytunwyd fel grŵp bod caledu targed yn atal digartrefedd ac o'r herwydd dylid ei gefnogi gan CP (ond fel ar hyn o bryd - mewn partneriaeth â Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, darparwyr Ardal dan Anfantais a'r Heddlu - sydd eisoes â swyddogaethau wedi eu datblygu'n dda ar gyfer hyn). Y bwlch presennol allweddol yw'r rhai mewn llety rhent preifat/deiliaid berchnogion sydd â mynediad cyfyngedig. | |

| | | |
|---|---|---|
| | • Alinio gyda ffrydiau Trechu Tlodi eraill - cytunwyd mai'r aliniad agosaf oedd gyda Theuluoedd yn Gyntaf er mwyn comisiynu ar y cyd, er nad yw prosiectau rhanbarthol/cenedlaethol yn ymddangos yn realistig ar hyn o bryd, ac yn fwy o fater i'r dyfodol.<br><br>**Diweddariad Landlord:** darparodd cynrychiolwyr landlordiaid y diweddariad llafar canlynol ynghylch y cap ATLl ac eithriadau tai â chymorth.<br><br>Cynhaliwyd cyfarfod gyda'r Adran gwaith a Phensiynau (DWP) ac ymgynghorwyr y mis diwethaf, gydag RS yn bresennol. Mae disgwyl y byddant yn adrodd yn ôl ac yn rhoi amlinelliad o'u hargymhellion ar 21 Gorffennaf. Roedd y cyfarfod wedi darparu rywfaint o sicrwydd bod y DWP wedi ystyried rhai o'r pryderon a godwyd gan y sector, roedd trafodaethau am weinyddu tai â chymorth; a thrafodaethau hefyd yn cynnwys gwella sefydlogrwydd a chynaliadwyedd llety, gan ystyried nifer o ddewisiadau.<br><br>Trafododd y pwyllgor yr ansefydlogrwydd y mae'r rhan hon o'r sector yn ei wynebu ar hyn o bryd, gan arwain at ddiffyg buddsoddiad cyfalaf mewn datblygiadau tai â chymorth a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn methu ymrwymo i adeiladu oherwydd y diffyg sicrwydd ariannol. | |
| **8.** | **Adroddiad Cynnydd y PCRh**<br><br>Cafodd adroddiad cynnydd y PCRh ei gydnabod gan yr aelodau a'i nodi yn y cofnodion. Rhoddodd AL drosolwg i'r pwyllgor o'r adroddiad PCRh, sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr eitemau agenda canlynol:<br><br>➢ Is-grŵp Gwasanaeth Defnyddwyr - cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol i gael golwg ar y wefan yn y cyfarfod PCRh nesaf ym mis Hydref; byddai hyn yn galluogi aelodau i gael golwg arni a darparu adborth.<br>➢ Ymgysylltiad Defnyddwyr Gwasanaeth: Hysbyswyd yr Aelodau o'r trafodaethau a gynhaliwyd yn ddiweddar rhwng y PCRh a swyddog prosiect "Take Notice" Shelter a'r potensial i gysylltu hyn â'r adolygiad o wasanaethau pobl ifanc.<br>➢ Is-grŵp Pobl Hŷn - cytunwyd bod y camau gweithredu o'r cyfarfod is-grŵp yn gofyn am gasglu gwybodaeth o'r timau CP<br>➢ Diwrnod Cynllunio Anghenion 22 Mehefin, 2016<br><br>**Camau Gweithredu:**<br><br>**Mynediad i wefan defnyddwyr gwasanaeth i gael ei drefnu ar gyfer cyfarfod nesaf y PCRh**<br><br>**Casglu gwybodaeth pobl hŷn gan y timau CP Pobl ac adrodd yn ôl i'r is-grŵp Pobl Hŷn PCRh** | <br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>H<br><br><br>I |
| **9.** | **Diwrnod Datblygu'r PCRh**<br><br>Diwrnod Datblygu'r PCRh 20 Mai 2016<br><br>Cytunodd yr Aelodau fod y sesiwn ddatblygu a gynhaliwyd wedi bod yn ddefnyddiol ac wedi darparu cyfle i'r pwyllgor drafod y blaenoriaethau ar gyfer y rhaglen Cefnogi Pobl a chynllun gwaith y PCRh ar gyfer 2016-2017 mewn | |

<table>
<tr><td></td><td>manylder. Cafodd y nodiadau drafft o'r cyfarfod eu dosbarthu gyda'r agenda a chytunwyd eu bod yn gofnod cywir. Trafodwyd a chytunwyd hefyd ar gynllun gwaith y PCRh ar gyfer 2016-2017.<br><br>Cytunwyd ar y canlynol:<br>Is-grwp pobl hŷn: dylai'r grŵp ystyried edrych ar faterion ehangach ar gyfer bobl hŷn gan gynnwys gwasanaethau unigrwydd a chyfeillio.<br><br>Is-grŵp pobl ifanc: RS i enwebu gweithiwr Grŵp Pobl i fynychu'r grŵp hwn. Cytunodd MC a SL hefyd i fod yn rhan o'r is-grŵp.<br><br>Gwasanaethau iechyd meddwl: adolygiad pen desg i'w gynnal unwaith y mae'r mapiau cyflenwi gwasanaeth wedi cael eu casglu oddi wrth y timau Cefnogi Pobl, gwybodaeth o'r adolygiad hwn i gael ei ystyried gan y PCRh mewn cyfarfod yn y dyfodol.<br><br>Is-grŵp Canlyniadau: cytunwyd y dylai swyddogion o bob tîm CP adolygu'r canlyniadau ar gyfer y maes sy'n hyrwyddo cynnydd a rheolaeth economaidd. Trafododd y pwyllgor faterion fel amrywiad yn y ffordd y cafodd y data ei fewnbynnu a'i gasglu ar draws awdurdodau lleol a rhanbarthau a'r problemau gyda natur oddrychol y wybodaeth a gasglwyd. Rhoddwyd diweddariad gan BC ar waith SPODG: rhagwelir y bydd yr ymgynghoriad ar y fframwaith wedi ei ddiweddaru yn dechrau cyn bo hir, ac mae'r grŵp wedi symleiddio'r offeryn casglu a'r categorïau cleient ac wedi sicrhau ei fod yn cysylltu â fframweithiau canlyniadau eraill gan gynnwys y fframwaith canlyniadau cenedlaethol.<br><br>➢ Nodiadau Drafft: cytunwyd<br>➢ Cynllun gwaith PCRh Gwent: cytunwyd<br>➢ Map cyfarfod Aelodau: cytunwyd bod hon yn ddogfen defnyddiol i ddeall ehangder dylanwad aelodau'r pwyllgor; roedd hefyd yn sicrhau bod y PCRh yn gwneud y cysylltiadau strategol priodol.<br><br>Camau Gweithredu:<br><br>Trefnu cyfarfodydd is-grŵp<br>Map cyfarfodydd i'w gwblhau a'i ddychwelyd i AL</td><td><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br><br>L<br>LL</td></tr>
<tr><td>10.</td><td>Ystyriaethau allweddol<br><br>Cafodd yr aelodau drafodaeth agored am ystyriaethau allweddol y rhaglenni CP:<br>• Aliniad trechu tlodi: pa fath o beth oedd hynny? X 10 ALl ar draws Cymru wedi ystyried rôl grantiau wedi eu neilltuo. A allai PCRh Gwent gynnig atebion ac awgrymiadau o gwmpas alinio pellach a hefyd weithio ar y cyd. Pa ddewisiadau ddylid eu hystyried, yn amrywio o gronni cyllid, alinio deilliannau ayyb. ac a/neu ddylai llety â chymorth gael ei osod ar wahân?<br>• Beth oedd pob un o ALlau Gwent yn ei wneud i alinio'r rhaglenni: datblygu strategaethau; rhannu pwyntiau mynediad ac arfer gorau y byddai modd ei ddilyn mewn mannau eraill<br>• Sut deimlad oedd hyn i'r defnyddiwr gwasanaeth sy'n cael cefnogaeth oddi wrth nifer o wahanol wasanaethau e.e. oddi wrth Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf a Chefnogi Pobl: a oedd hynny'n</td><td></td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
| | digwydd?<br>• Sut roedd rhaglenni eraill yn edrych ar sail rhanbarthol, ynte ydynt yn gweithio'n lleol yn llwyr? Beth oedd cyfanswm buddsoddiad ar draws y rhanbarth ar gyfer yr holl raglenni?<br>• Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn treialu'r model TAF gyda darparydd iechyd meddwl, i weld a oedd yn gweithio wrth gefnogi pobl sengl.<br>• Mae Cyngor Sir Casnewydd yn treialu'r model gweithiwr arweiniol.<br>• Mae gan Gaerffili gontract ar y cyd yn ei le.<br>• A oedd angen esmwytháu'r trefniadau ymhellach?<br>• Ofn colli gwasanaethau o'i gymharu gyda'r cyfleoedd a buddion a allai ddod oddi wrth hyn<br>• Angen i PCRh gael disgwyliadau realistig o beth yr oedd modd i ni ei wneud.<br>• Byddai datblygiadau o gwmpas yr agenda hwn yn cael eu gyrru yn lleol gan ALlau sy'n atebol am y rhaglenni tlodi.<br>• Trafodwyd gwaith ataliol oedd wedi digwydd yn yr Alban i leihau troseddau treisgar a chynyddu ymgysylltiad.<br><br>**Camau Gweithredu:**<br><br>**Canfod ble mae ALlau wedi cyrraedd gydag aliniad Trechu Tlodi.**<br><br>**Dapraru diweddariad i'r PCRh o'r gwaith mapio ymyriadau sy'n digwydd yng Nghasnewydd**<br><br>**Dosbarthu'r ddolen i'r gwaith atal a wnaed yn yr Alban** | M<br><br>N<br><br>O |
| **11.** | **Unrhyw Fater Arall**<br><br>**Costau cyfieithu**<br><br>Trafodwyd rhannu'r gost o gyfieithu dogfennau'r PCRh; ers mis Ebrill mae ALlau wedi rhannu'r costau ac wedi ystyried yn ofalus a oes angen cyfieithu dogfennau, gan gyfieithu'r rhai sydd angen eu cyhoeddi yn unig; nid oedd aelodau eraill y pwyllgor yn gallu ymrywmo unrhyw gyllid tuag at gyfieithu ar hyn o bryd.<br><br>**Cam Gweithredu: Costau cyfieithu i'w trafod ar draws yr ALlau gan ddarparu diweddariad i gyfarfod nesaf PCRh** | P |
| | Dyddiad/amser y cyfarfod nesaf: 13eg Gorffennaf 2016 09:30 am<br><br>**<u>Ystafell Gyfarfod y Felin, Tŷ'r Efail, Lower Mill Field, Pont-y-pŵl, NP4 0XJ</u>** | |

# PCRh Gwent: Camau Gweithredu'r Cyfarfod

1:15 pm – 15:45 pm, Dydd Iau 14 Ebrill 2016

| CAM | RHIF AR YR AGENDA | CAM GWEITHREDU | I'W GWBLHAU GAN |
|---|---|---|---|
| A | 2 | **Dosbarthu'r cyflwyniad Sipsiwn a Theithwyr gyda'r cofnodion** | AL |
| B | 2 | **Dosbarthu manylion cyswllt Rebecca Preston ar gyfer y Gwasanaeth Cefnogi Sipsiwn a Theithwyr gyda'r cofnodion** | AL |
| C | 3 | **Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r PCRh ar ôl cyfarfod Cadeirydd ac Is-gadeirydd PCRh gyda'r Ymgynghorydd Cenedlaethol ar gyfer Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin yn Cartref a Thrais Rhywiol. Cyfarfod EW/RS/RBD wedi ei drefnu** | EW/RS |
| D | 3 | **Dosbarthu gwybodaeth am gynllun Llwybrau Gwent i droseddwyr unwaith y bydd ar gael** | BC |
| E | 3 | **Hysbysu'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol bod cyfethol cynrychiolydd wedi ei gytuno.** | EW |
| F | 3 | **Cadarnhau os gall ddod yn gynrychiolydd y PCRh /PBLl >** | AH |
| G | 3 | **Anfon Cylch Gorchwyl PCRh ymlaen i gydweithwyr NCN** | AH |
| H | 3 | **Cadarnhau swydd dirprwy gyda WM** | DC |
| I | 3 | **Cysylltu â chydweithwyr TTI i drafod aelodaeth cyfetholedig i'r PCRh.** | AH/RSto |
| J | 4 | **Cam gweithredu: Cysylltu ag aelodau PCRh i gadarnhau llofnodi alldro terfynol chwarter pedwar ar gyfer craffu, cymeradwyo a llofnodi** | AL |
| K | 6 | **Unrhyw ddatblygiadau ynghylch "rhoi cyngor ar ddyledion" i gael eu darparu i'r PCRh.** | AL/Arweinyddion CP |
| L | 8 | **Mynediad i wefan defnyddwyr gwasanaeth i gael ei drefnu ar gyfer cyfarfod nesaf y PCRh** | AL/BC |
| M | 8 | **Casglu gwybodaeth pobl hŷn gan y timau CP Pobl ac adrodd yn ôl i'r is-grŵp Pobl Hŷn PCRh** | AL |
| N | 9 | **Trefnu cyfarfodydd is-grŵp** | AL |
| O | 9 | **Map cyfarfodydd i'w gwblhau a'i ddychwelyd i AL** | ALL |

| | | | |
|---|---|---|---|
| P | 10 | **Canfod ble mae ALlau wedi cyrraedd gydag aliniad Trechu Tlodi.** | BC/DC/AL |
| Q | 10 | **Dapraru diweddariad i'r PCRh o’r gwaith mapio ymyriadau sy'n digwydd yng Nghasnewydd** | NS |
| R | 10 | **Dosbarthu'r ddolen i'r gwaith atal a wnaed yn yr Alban** | AZ |
| S | 11 | **Costau cyfieithu i'w trafod ar draws yr ALlau gan ddarparu diweddariad i gyfarfod nesaf PCRh** | Arweinyddion CP |